Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Wdig
# Hill Street
# Wdig
# Sir Benfro
# SA64 0ET

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Wdig wedi'i lleoli ym mhentref Wdig, sydd gerllaw tref Abergwaun yn Sir Benfro. Mae'n gwasanaethu'r gymuned leol a'r ardal o'i chwmpas.

Ar hyn o bryd, mae 124 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol, sy'n cynnwys 26 o blant meithrin gyda naw ohonynt yn rhan amser. Mae gan 30% o'r disgyblion hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl, sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Daw 18% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad. O ran natur ieithyddol, mae'r ysgol yn 'ysgol drawsnewidiol' yn ôl categorïau ieithyddol Llywodraeth Cymru. Y Gymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu, gyda'r ysgol yn ddiweddar wedi cyflwyno defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae pob disgybl yn dilyn y rhaglen astudio Cymraeg iaith gyntaf.

Mae ychydig iawn o'r disgyblion o gefndir grwpiau ethnig lleiafrifol, ond nid oes disgyblion sy'n dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae gan tua 40% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n arwyddocaol uwch na'r ffigwr cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol dan ofal pennaeth a dirprwy bennaeth dros dro am flwyddyn yn dilyn ymddeoliad y pennaeth blaenorol yn haf 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Wdig yn 2012-2013 yw £3,641. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Benfro yw £5,870 a'r lleiafswm yw £3,138. Mae Ysgol Wdig yn safle 32 o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol gan fod:

- ethos cadarnhaol, lle mae'r disgyblion yn ymroi i ddysgu ac yn gweithio'n gydwybodol yn llawer o'r gwersi;
- lefelau presenoldeb dros gyfnod o dair blynedd yn cymharu'n ffafriol iawn â rhai ysgolion tebyg;
- systemau olrhain cynnydd trylwyr sy'n cael eu defnyddio'n effeithiol i gynllunio cymorth ychwanegol yn ôl yr angen;
- disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd clir yn eu gwaith; a bod
- y ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol.

Fodd bynnag:

- nid yw'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd ar draws yr ysgol mewn agweddau ar lythrennedd;
- mae diffyg manyldeb yn y cynllunio i sicrhau bod y gwaith bob amser yn darparu her briodol i ddisgyblion o lefelau gallu gwahanol mewn dosbarth, yn enwedig disgyblion o allu uwch; ac
- mae targedau gwella disgyblion unigol yn rhy gyffredinol, ac nid yw'r marcio yn gwneud digon i ddangos i'r disgyblion yr hyn i'w wneud i wella safon eu gwaith.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol gan fod:

- arweinyddiaeth wedi cael effaith arwyddocaol ar ethos yr ysgol fel cymuned ddysgu a chyflawni gwelliannau sylweddol i agweddau ar les disgyblion;
- ymdeimlad cryf o weithio fel tîm ymhlith staff ac ymrwymiad clir i sicrhau gwelliant pellach;
- defnydd helaeth o ddata fel modd o fesur perfformiad yr ysgol, sydd wedi arwain at welliannau yng nghyflawniad grwpiau o ddisgyblion;
- ystod o sustemau hunan-arfarnu priodol yn eu lle; a bod
- gwella safonau llythrennedd yn un o flaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol.

Fodd bynnag:

- nid yw arweinyddiaeth yr ysgol dros gyfnod wedi cael digon o effaith o ran codi safonau yn gyffredinol a gwella perfformiad yr ysgol;

- nid yw sustemau hunan-arfarnu'r ysgol yn rhoi digon o sylw i'r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud mewn gwersi ac yn eu gwaith ysgrifenedig; ac
- nid yw'r corff llywodraethol eto'n herio perfformiad yr ysgol ddigon nac yn cyfrannu digon i brosesau llunio'r cynllun datblygu ysgol a'r adroddiad hunan-arfarnu.

## Argymhellion

R1 Gwella'r cynnydd yn safonau llythrennedd disgyblion ar draws yr ysgol, yn cynnwys medrau llafar Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2

R2 Gwella cyflawniadau'r bechgyn

R3 Sicrhau bod yr addysgu'n rhoi her briodol i'r disgyblion ar sail yr ystod gallu mewn dosbarth, yn enwedig disgyblion gallu uwch

R4 Sicrhau bod y marcio a thargedau personol disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos yn glir i'r disgyblion yr hyn i'w wneud i wella cynnwys a chywirdeb eu gwaith

R5 Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn dangos yn glir y dilyniant yn y medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu

R6 Cryfhau trefniadau monitro'r ysgol drwy sicrhau bod arfarniadau treiddgar o safonau a chynnydd disgyblion yn eu gwersi a'u gwaith ysgrifenedig yn arwain at welliannau

R7 Cryfhau cyfranogiad y llywodraethwyr yn y prosesau cynllunio strategol a'u rôl fel cyfeillion beirniadol

R8 Safoni a chymedroli asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen i sicrhau asesiadau dilys

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mewn gwersi, mae'r disgyblion yn gyffredinol yn ymgymryd â'u tasgau ac yn gwneud cynnydd cyson yn erbyn nodau'r gwersi. Dangosant agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac maent yn awyddus i lwyddo. Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd oherwydd disgwyliadau rhy isel neu dasgau sydd heb fod yn darparu lefel briodol o her.

Mae dadansoddiadau'r ysgol o gynnydd grwpiau targed yn dangos bod y disgyblon hyn yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu medrau sylfaenol. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd clir yn erbyn eu targedau personol. Ym mwyafrif y gwersi, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent mewn rhai agweddau ar eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n briodol ar eu hathrawon ac ar ei gilydd, ac yn barod i gynnig ymatebion yn llafar. Maent yn meithrin eu medrau llafar cychwynnol yn y Gymraeg yn fuan yn y Cyfnod Sylfaen, ac yng nghyfnod allweddol 2 yn dod i fedru esbonio'r hyn y maent yn ei wneud yn eu gwersi gyda hyder cynyddol. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yng ngallu'r disgyblion i ymateb yn fwy estynedig ac i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd mewn gwersi wrth weithio mewn parau neu grwpiau bach.

Mae medrau darllen cynnar disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ddarllen yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn medru darllen ar goedd yn ystyrlon yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gormod o ddisgyblion yn tangyflawni mewn darllen Cymraeg, yn enwedig bechgyn. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud peth defnydd o fedrau ymchwilio, ond nid oes digon o ddatblygiad yn y medrau hyn nag yn y gallu i ymateb i ffuglen.

Gwna disgyblion y Cyfnod Sylfaen gynnydd cychwynnol cadarn yn datblygu eu medrau ysgrifennu. Maent yn gallu llunio brawddegau amrywiol gyda gafael gynyddol ar eirfa, gan ddechrau defnyddio atalnodi sylfaenol yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn y gallu i gyfuno ystod o frawddegau yn gydlynol i greu darnau mwy estynedig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn gyffredinol yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae eu gwaith yn dangos gafael gynyddol ar gywirdeb ac atalnodi ac maent yn trefnu eu gwaith yn effeithiol yn baragraffau. Er bod cynnydd i'w weld o ran hyd ac ansawdd y gwaith, prin yw'r enghreifftiau o ysgrifennu estynedig i ystod gynyddol o bwrpasau yn y gwaith ar draws y cwricwlwm, yn enwedig darnau ffeithiol. Nid yw disgyblion yn gwneud digon o ddefnydd o'u medrau drafftio a golygu gwaith eu hunain er mwyn gwella ansawdd eu gwaith.

Ac eithrio mewn datblygiad mathemategol, roedd cyflawniadau'r disgyblion ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen yn 2012 yn llawer is na'r ffigwr cenedlaethol a chyfartaledd y teulu. Roedd hyn yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran hawl i ginio ysgol yn ddi-dâl. Mae cyflawniadau disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar ddeilliant 6, gan mwyaf, yn uwch nag mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw'r cyflawniadau hyn yn adlewyrchiad digon cywir o safonau gwaith disgyblion y llynedd.

Bu gwelliant yn ddiweddar yng nghyflawniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 mewn ysgrifennu Saesneg ac yn enwedig yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol yn gyffredinol yn parhau'n is na'r disgwyl o gymharu ag ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r cyflawniadau ar y lefelau uwch dros gyfnod yn is na'r disgwyliadau, yn enwedig yn y Gymraeg.

Mae bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r merched a'r bechgyn mewn sawl dangosydd yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, roedd cyflawniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 â hawl i ginio am ddim yn 2012 yn cymharu'n ffafriol iawn â gweddill y garfan disgyblion.

**Lles: Da**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at gadw'n heini a bwyta'n iach. Maent yn mwynhau gweithgareddau corfforol, gyda niferoedd uchel yn cymryd rhan yn y clybiau sy'n cael eu cynnig.

Mae safonau ymddygiad yn dda, gyda disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion. Mewn gwersi, mae disgyblion yn canolbwyntio ac yn gweithio'n gydwybodol.

Bu presenoldeb yr ysgol ymhlith y 25% uchaf dros gyfnod o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i ginio yn ddi-dâl. Mae disgyblion yn cyrraedd yr ysgol a'u gwersi yn brydlon.

Mae'r cyngor ysgol newydd wedi derbyn syniadau gan eu cyd-ddisgyblion ar faterion i roi sylw iddynt, ac wedi trefnu bore coffi i godi arian at elusen cancr. Bu aelodau'r cyngor hefyd yn gyfrifol am drefnu'r ffair fenter a dyddiau heb wisg ysgol. Drwy'r holiadur i gasglu syniadau gan eu cyd-ddisgyblion ar weithgarwch allgyrsiol, maent yn ymwybodol o sut i gywain safbwyntiau a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau a chynllunio mentrau.

Mae'r disgyblion yn dechrau cymryd rhan weithredol yn y broses o gynllunio eu gweithgareddau dysgu. Drwy fentrau fel y 'ffrindiau ffyddlon' a'r 'fainc gyfeillgarwch' mae'r disgyblion yn datblygu synnwyr cryf o gyfrifoldeb am les eraill a gofal am eu cyd-ddisgyblion. Drwy fentrau fel y prosiect fferm organig, mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth o agweddau ar y gymuned a byd busnes lleol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith priodol sydd wedi'u seilio ar themâu cyfoes o ddiddordeb i'r plant ac sy'n berthnasol i'r ardal leol a'r byd tu hwnt. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion mwyafrif y disgyblion.

Mae ymweliadau â'r gymuned a gan ymwelwyr â'r ysgol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio gwersi a gweithgareddau sydd, at ei gilydd, yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cymell yn briodol yn eu gwersi. Maent yn gwneud defnydd priodol o orchmynion pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol i sicrhau darpariaeth sy'n bodloni'r gofynion pynciol mewn modd cytbwys. Fodd bynnag, nid oes trosolwg ysgol gyfan mewn perthynas â'r medrau i sicrhau cysondeb yn nisgwyliadau'r athrawon a dilyniant yn y medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg dros y blynyddoedd diwethaf. Arwydd o'r ymrwymiad hwn yw'r newid diweddar i gyflwyno'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng addysgu mewn mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cynyddu oriau cyswllt disgyblion â'r Gymraeg. Mae'r dimensiwn Cymreig yn treiddio trwy'r profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm, ac yn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o agweddau ar hanes a daearyddiaeth Cymru. Yn yr un modd, mae'r sylw i chwedloniaeth Cymru a thraddodiadau megis dathlu'r Calan yn meithrin ymwybyddiaeth briodol o'r diwylliant Cymreig.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer galluogi disgyblion i ddysgu am gynaliadwyedd. Mae unedau penodol o waith yn cynyddu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang, gyda chyswllt buddiol rhwng yr ysgol ag ysgol Dane's Castle yn Iwerddon.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon yn cynnal perthynas dda â'r disgyblion, sy'n arwain at amgylchedd dysgu cadarnhaol yn y dosbarthiadau. Maent yn delio ag achosion o gamymddwyn neu ddiffyg cyfranogiad yn gadarn ond mewn modd cynhaliol. Yn rhan fwyaf y gwersi, mae athrawon yn gwneud defnydd priodol o'r cymorthyddion dysgu i roi cymorth i ddisgyblion mewn grwpiau bach. Mae hyn yn sicrhau bod sylw helaeth i anghenion disgyblion â medrau gwan a'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol.

Yn llawer o'r gwersi, mae athrawon yn cynllunio dilyniant o weithgareddau sy'n sicrhau bod cymhelliant a diddordeb plant yn cael ei gynnal. Fodd bynnag, nid oes cynllunio digon manwl ym mwyafrif y gwersi ar sail yr ystod gallu mewn dosbarth. O ganlyniad, nid oes digon o her ar brydiau i sicrhau bod disgyblion o allu uwch yn cyflawni gystal ag y gallent.

Mewn gwersi, mae cydadwaith parhaus â'r disgyblion, a holi cwestiynau, yn darparu cyfleoedd priodol i'r disgyblion gyfrannu yn llafar a datblygu eu dealltwriaeth. Caiff y disgyblion gyfleoedd priodol hefyd i weithio mewn grwpiau bach. Mewn ychydig o'r gwersi, nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel, gyda diffyg her a sylw i atgyfnerthu gafael y disgyblion ar iaith.

Mae gan yr ysgol system olrhain cynnydd gynhwysfawr ac mae'n gwneud defnydd effeithiol o ddata i nodi anghenion disgyblion unigol neu grwpiau a threfnu cymorth ychwanegol priodol ar eu cyfer. Mae gweithdrefnau safoni a chymedroli priodol yn eu lle ar gyfer asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ond nid i sicrhau dilysrwydd yr asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r disgyblion wedi dechrau ar asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Maent yn cyfrannu at bennu targedau gwella i'w hunain, er nad yw'r targedau hyn yn ddigon penodol i'w helpu i sicrhau cynnydd yn eu herbyn. Mewn lleiafrif o achosion yn unig y mae sylwadau athrawon ar waith disgyblion yn eu llyfrau yn rhoi arweiniad penodol i helpu disgyblion i ddatblygu cynnwys a chywirdeb eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r modd y mae'r ysgol yn hyrwyddo lles y disgyblion yn gyffredinol yn gryfder. Gwnaeth mentrau blaengar fel y 'grŵp maethiad' a'r rhaglen addysg werthoedd gyfraniad pwysig i'r modd y mae'r ysgol wedi mynd ati i ymateb i effaith amddifadedd cymdeithasol ar les disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar waith mewn perthynas â hyrwyddo lles a iechyd y disgyblion, gyda chydweithio effeithiol ag asiantaethau allanol i leihau'r perygl o niwed i ddisgyblion. O ganlyniad i'r cymorth sydd wedi'i dargedu'n glir ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed, bu gwelliant sylweddol yng nghynnydd addysgol a lles y disgyblion hyn.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn briodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer nodi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion sydd ag angen cymorth ychwanegol. Mae cynlluniau addysg unigol priodol ar eu cyfer a systemau ymyrraeth effeithiol i sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd yn unol â'r targedau, gyda'r cynnydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn un cynhaliol, yn unol â'i harwyddair 'Dyro dy law i ni ac fe awn i ben y mynydd'. Mae rhoi cyfle cyfartal i ddisgyblion beth bynnag fo'u cefndir yn flaenoriaeth uchel ac yn cael ei adlewyrchu yn y modd y mae'r ysgol yn rhoi cymorth ychwanegol helaeth i ddisgyblion bregus. Yn ogystal, mae darpariaeth fel y grŵp maethiad a'r clybiau darllen a gwaith cartref amser cinio yn cyfrannu'n helaeth at hyrwyddo cyfleodd cyfartal a sicrhau lleihad yn effaith amddifadedd.

Mae'r safle a'r adeilad mewn cyflwr da ac yn darparu digon o le sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei arddangos mewn arddangosfeydd deniadol ac yn cyfrannu at greu amgylchedd dysgu diddorol. Mae digon o adnoddau ar gyfer dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinyddiaeth yr ysgol dros gyfnod wedi cael effaith arwyddocaol ar wella'r ysgol fel cymuned ddysgu, yn enwedig o ran gwella lles grwpiau bregus ac

agweddau disgyblion at ddysgu. Er hynny, nid yw arweinyddiaeth yr ysgol dros gyfnod eto wedi cael digon o effaith o ran codi safonau yn gyffredinol a gwella perfformiad yr ysgol.

Mae'r tîm rheoli dros dro wedi cyflwyno systemau newydd priodol sy'n cyfrannu'n briodol at bennu cyfeiriad strategol yr ysgol, gyda chodi safonau llythrennedd yn flaenoriaeth. Mae'r defnydd o ddadansoddiadau data gan y tîm rheoli wedi arwain at welliannau arwyddocaol mewn agweddau ar lythrennedd a nodi'r angen am welliant pellach.

Yn gyffredinol, mae gan y staff gyfrifoldebau priodol a disgrifiadau swydd clir, ond mae peth ansicrwydd mewn perthynas â natur cyfrifoldeb arwain y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r corff llywodraethol yn derbyn gwybodaeth briodol am ddata perfformiad. O ganlyniad, mae ganddo ddealltwriaeth gywir o sut mae'r ysgol yn perfformio, a'r hyn sydd angen ei wneud o ran gwella safonau. Mae'r mentrau fel y 'teithiau dysgu' gan lywodraethwyr hefyd yn rhoi blas iddynt o'r gwaith yn y dosbarthiadau. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldebau'r llywodraethwyr mewn perthynas â herio perfformiad yr ysgol a chyfrannu i brosesau strategol eto wedi datblygu digon.

Mae mentrau'r ysgol yn gysylltiedig â lles disgyblion a mynd i'r afael ag effaith amddifadedd cymdeithasol yn tystio i'r sylw helaeth i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae sustemau gwella ansawdd yr ysgol yn gwneud defnydd o ystod o ffynonellau tystiolaeth priodol, yn cynnwys ymweliadau arsylwi yn y dosbarth ac archwilio samplau o waith disgyblion. Er hynny, nid yw'r sustemau hunan-arfarnu hyd yma wedi rhoi digon o sylw i safonau a chynnydd disgyblion yn eu gwersi a'u gwaith ysgrifenedig. Y mae rhaglen fonitro addas wedi ei llunio ar gyfer y tair blynedd nesaf. Er bod yr ysgol wedi gwneud defnydd o holiadur disgyblion y tymor hwn, yn gyffredinol, nid yw casglu safbwyntiau disgyblion a rhieni wedi derbyn digon o sylw.

Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol yn cynnwys dadansoddiad manwl a dilys o ddata, yn cynnwys tueddiadau mewn perfformiad a chymariaethau ag ysgolion tebyg. Mae'n cynnwys rhestr gryno o flaenoriaethau gwelliant ar ddiwedd y rhan fwyaf o'r adrannau sydd, ar y cyfan, yn perthnasu i'r bwriadau yn y cynllun datblygu ysgol. Er hynny, mae mwy o amrywiaeth yn bodoli yn ansawdd y ddarpariaeth ac yng nghyflawniadau'r disgyblion nag y mae'r adroddiad hunan-arfarnu'n ei nodi.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen gryno a chlir ac yn canolbwyntio ar nifer priodol o flaenoriaethau. Mae'n cynnwys ffocws clir ar godi safonau, yn enwedig llythrennedd yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn nodi targedau meintiol heriol, wedi eu seilio ar wella perfformiad cymharol â'r teulu o ysgolion tebyg. Prin, fodd bynnag, yw'r sylw i wella sustemau rheolaethol. Nid oes cyswllt digon amlwg rhwng deilliannau'r systemau monitro gwaith disgyblion â'r hunan-arfarniad a'r cynllun datblygu ysgol.

Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn llwyddiannus â mwyafrif argymhellion yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd wedi ei wneud yn cryfhau trefniadau monitro a gwella'r cynllunio ar gyfer y medrau.

Mae sefydlu a chymryd rhan mewn cymunedau dysgu proffesiynol yn fewnol ac ar y cyd ag ysgolion eraill yn derbyn sylw priodol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ymrwymiad clir i gydweithio gydag ystod briodol o bartneriaid.

Mae'r bartneriaeth â'r rhieni yn effeithiol, gyda rhieni'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. Er mwyn sicrhau bod rhieni yn medru darparu cymorth cynyddol i'w plant, mae'r ysgol yn cynnal gweithdai defnyddiol iddynt ar agweddau fel y medrau sylfaenol, ynghyd â dosbarth dysgu Cymraeg.

Mae cydweithio effeithiol gyda'r uned iaith Gymraeg i hwyrddyfodiaid yn Ysgol Bro Gwaun, sy'n cynnwys ymweliadau dilynol gan staff y ganolfan wedi i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol. Mae trefniadau buddiol yn eu lle gyda'r ddwy ysgol uwchradd sy'n derbyn disgyblion Ysgol Wdig ar gyfer sicrhau parhad mewn gofal bugeiliol adeg trosglwyddo. Hefyd, mae trefniadau addas yn weithredol ar gyfer cyd-safoni a chymedroli asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol gydag ystod o gyrff, sefydliadau a busnesau lleol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff ac mae'n eu defnyddio mewn modd priodol. Mae'r tîm dysgu a'r staff ategol yn cydweithio'n effeithiol a gwna'r athrawon ddefnydd priodol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn eu lle, sy'n arwain at ddarparu cyfleoedd addas ar gyfer datblygiad proffesiynol yn gysylltiedig â blaenoriaethau ysgol. Mae hyn yn cynnwys cynllun sabothol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella medrau addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae blaenoriaethau gwella'r cynllun datblygu ysgol yn rhoi sylw priodol i gostau'r bwriadau. Mae'r ysgol yn cadw cyfran briodol o'i chyllideb fel cyllid wrth gefn.

Mae'r adeilad a safle'r ysgol yn cael eu cynnal a chadw i safon uchel.

O ystyried cyflawniadau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ym mhob u'n o'r meysydd dysgu gyda'i gilydd yn llawer is na'r ffigwr cenedlaethol a chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg, ac ar waelod y teulu o ryw 20 pwynt canran.  Roedd hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol di-dâl.  Yn wahanol i'r meysydd dysgu eraill, cyflawnodd pob un o'r disgyblon y deilliant disgwyliedig ym maes dysgu datblygiad mathemategol, gyda hyn yn gosod yr ysgol ar frig y teulu o ysgolion tebyg ac ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran hawl i rydau ysgol yn ddi-dâl.

Mae canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn 2012 a gyflawnodd y deilliant uwch mewn iaith ac mewn mathemateg yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol a chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg ac yn agos i'r 25% o ran ysgolion a lefelau tebyg o brydau ysgol di-dâl.  Ni chyflawnodd unrhyw ddisgybl y deilliant uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

Yng nghyfnod allweddol 2, bu patrwm o gynnydd yn y canran disgyblion yn cyflawni'r lefel disgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, yn dilyn patrwm cyson o ostyngiad yn y pedair blynedd flaenorol.  Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol yn parhau yn is nag yn ysgolion eraill y teulu o ysgolion tebyg yn 2012 ac yn agos i'r 25% isaf o ran ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol di-dâl.

Bu patrwm clir o welliant mewn ysgrifennu Saesneg dros y tair blynedd ddiwethaf, gyda chyflawniadau'r disgyblion bellach o gwmpas cyfartaledd y teulu.  Yn y Gymraeg, bu gwelliant arwyddocaol dros y tair blynedd ddiwethaf yn y gyfran o'r disgyblion yn cyflawni'r lefel disgwyliedig.  Eto i gyd, mae cyflawniadau disgyblion yn y Gymraeg yn 2012 yn parhau yn agos i'r gwaelod yn y teulu ac yn agos i'r 25% isaf o ran ysgolion â lefelau tebyg o hawl i brydau ysgol di-dâl.  Mae cyflawniadau darllen Cymraeg yn parhau'n isel, yn enwedig ymhlith bechgyn.

Mewn mathemateg, mae canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel disgwyliedig wedi gostwng dros y tair blynedd ddiwethaf, ond yn parhau'n agos i gyfartaledd y teulu yn 2012 ac yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion yn yr un grŵp prydau ysgol di-dâl.  Bu patrwm tebyg o ostyngiad mewn gwyddoniaeth, ond roedd perfformiad yr ysgol yn 2012 wedi gostwng i'r 25% isaf o ysgolion tebyg o ran prydau ysgol di-dâl.

Yn Saesneg ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae cyflawniadau ar y lefelau uwch gan mwyaf yn is na chyfartaledd y teulu ac ymhlith y 25% neu'r 50% isaf yn y ddwy flynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol di-dâl.  Yn y Gymraeg, bu canran disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyflawni ar y lefel uwch yn gyson yn arwyddocaol is na chyfartaledd y teulu dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012, roedd cyflawniadau bechgyn yn arwyddocaol is na chyflawniadau'r merched mewn iaith ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyflawniadau'r merched yn arwyddocaol uwch na'r bechgyn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r merched a'r bechgyn hefyd mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, roedd cyflawniadau disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn ddi-dâl yn arwyddocaol uwch chyflawniadau gweddill y garfan yn 2012.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiaduron dysgwyr

Llenwyd yr holiaduron gan 58 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion ar gyfer bron y cyfan o'r cwestiynau yn cymharu'n ffafriol â'r darlun cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae'r disgyblion i gyd yn nodi bod digon o gyfleoedd i gadw'n heini a bron y cyfan hefyd yn dweud bod yr ysgol yn dysgu iddynt sut i gadw'n iach. Mae'r disgyblion i gyd yn nodi bod staff yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, gyda'r rhan fwyaf yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn dweud bod disgyblion yn ymddwyn yn dda ar adegau egwyl a chinio. Fodd bynnag, mae lleiafrif o'r disgyblion yn dweud bod ymddygiad yn amharu ar eu gallu i gwblhau eu gwaith yn y dosbarth, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

### Ymatebion i'r holiaduron rhieni/gofalwyr

Llenwyd yr holiaduron gan 12 o rieni/gofalwyr. Mae'r ymatebion yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol â'r darlun cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae'r rhieni i gyd yn dweud eu bod yn fodlon â'r ysgol a bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da. Maent oll hefyd o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Mae'r rhieni i gyd yn dweud bod staff yn disgwyl i'w plant roi o'u gorau, a bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Mae'r rhan fwyaf yn dweud bod yr addysgu'n dda a'u bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae'r rheini i gyd yn nodi bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn teimlo'n esmwyth i godi cwestiwn, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae lleiafrif o'r rhieni yn dweud nad ydynt yn deall trefn gwyno'r ysgol ac nad yw disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Davies | Arolygydd Tîm |
| Veronica Williams | Arolygydd Lleyg |
| Angharad Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jonathon Jones | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

## Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae’r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy’n byw yn 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy’n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.